



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar reoliadau safonau'r Gymraeg drafft ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Mai 2022

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cyflwyniad..... 3

Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad..... 4

Crynodeb o'r Ymatebion 5

Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cyflenwi gwasanaethau a gynigir yn y rheoliadau? 5

Cwestiwn 2: Mae Rhan 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn cynnwys dehongliadau ar gyfer rhai o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Mae paragraffau 16-37 yn esbonio sut mae rhai o'r safonau'n gweithio ac o dan ba amgylchiadau y maent yn berthnasol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dehongliad o'r safonau a nodwyd yn Rhan 3? 15

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau llunio polisi a gynigir yn y rheoliadau? 18

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau gweithredu a gynigir yn y rheoliadau? 21

Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cadw cofnodion a'r safonau sy'n ymdrin â materion ategol a gynigir yn y rheoliadau? 24

Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol? 25

Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg..... 27

Cwestiwn 8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny: 28

ATODIAD A – RHESTR O'R YMATEBWYR 30

Cyflwyniad

- 1.1. Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Safonau'r Gymraeg ('safonau') o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') sy'n rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg.
- 1.2. Rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2016, gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg drafft ar gyfer cyrff y sector iechyd.¹ Yn ogystal â phennu safonau ar gyfer cyrff megis byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a chynghorau iechyd cymuned, roedd y Rheoliadau drafft hynny yn cynnig diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 i gynnwys y cyrff canlynol:
 - Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
 - Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
 - Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
 - Y Cyngor Optegol Cyffredinol
 - Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
 - Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
 - Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
 - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
 - Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 1.3. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, penderfynodd Gweinidogion Cymru na fyddent yn mynd ar drywydd y cynnig i ychwanegu'r cyrff at y Rheoliadau Rhif 4 ond y byddent yn paratoi Safonau penodol ar wahân ar gyfer y cyrff a restrir ym mharagraff 1.2 uchod.
- 1.4. Diben yr ymgynghoriad hwn yn 2020 oedd ceisio barn ar y Rheoliadau drafft, a baratowyd ar gyfer y cyrff Rheoleiddio hyn, ac sy'n ymwneud â gwasanaethau y maent yn eu darparu i'r cyhoedd ac i'w cofrestryddion. Bydd y Rheoliadau drafft yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar y cyrff hyn.
- 1.5. Cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ymgynghoriad cyhoeddus ar 16 Mawrth 2020, a oedd i fod i ddod i ben ar 15 Mehefin 2020 yn wreiddiol.² Oherwydd y pandemig COVID-19, cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn tan 2 Hydref 2020 er mwyn i bawb sydd â diddordeb yn y Rheoliadau drafft gael cyfle i rannu eu barn. Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r 9 corff am y cyfnod ymgynghori estynedig, a thynnodd gwefan Llywodraeth Cymru sylw ehangach at y newid hwn i'r dyddiad cau.

¹ https://llyw.cymru/safonau-gymraeg-gwella-gwasanaethau-sector-iechyd-i-siaradwyr-cymraeg?_ga=2.202462481.1097975742.1648455175-1383277514.1628773472

² https://llyw.cymru/safonau-gymraeg-ar-gyfer-rheoleiddwyr-iechyd-ar-awdurdod-safonau-proffesiynol?_ga=2.209409426.1097975742.1648455175-1383277514.1628773472

- 1.6. Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at rifau'r Safon yn gyfeiriadau at y Safon yn y Rheoliadau drafft, oni nodir yn wahanol.³

Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.1 Derbyniwyd cyfanswm o 15 o ymatebion. Roedd 12 o'r ymatebion yn ymdrin â'r cwestiynau a ofynnwyd gennym, naill ai drwy ddefnyddio'r holiadur proforma neu drwy ddarparu dogfennau'n nodi ymatebion i'n cwestiynau. Roedd 1 ymateb yn ymdrin â'r pynciau cyffredinol a godwyd yng nghwestiynau'r ymgynghoriad. Roedd y 2 ymateb arall yn rhoi sylwadau mwy cyffredinol.
- 2.2 Lle nad oedd ymatebion yn cyfeirio'n uniongyrchol at y cwestiwn, rydym wedi rhoi'r sylwadau o dan y cwestiwn sydd fwyaf perthnasol yn ein barn ni. Rydym wedi gwneud hyn hefyd lle mae ymatebwyr wedi codi pwyntiau tebyg mewn perthynas ag amryw o gwestiynau. Rhannwyd yr ymatebion yn wahanol categorïau o ymatebwyr, fel y dangosir isod. Diben gwneud hynny yw cydnabod tueddiadau sectoraidd. Nodir y dadansoddiad yn yr adran 'Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad' yn unol â'r categorïau hyn.
- 2.3 Ymatebodd 8 o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn i'r ymgynghoriad. Cafwyd y 7 ymateb arall gan ymatebwyr yng Nghymru. Rydym o'r farn bod y gwahaniaeth rhwng y sylwadau a gafwyd gan y rheoleiddwyr gofal iechyd ac ymatebwyr eraill yn ddeublyg. Yn gyntaf, y rheoleiddwyr gofal iechyd yw'r unig gategori o ymatebwyr a fydd yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau, felly roeddent yn ymateb fel y darparwr gwasanaethau. Yn ail, mae'n anochel bod eu natur fel cyrff y DU yn cael effaith ar eu hymatebion gan mai dim ond i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yng Nghymru y mae'r safonau'n berthnasol. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A.

Math o Ymatebydd	Categori'r Ymatebydd
Rheoleiddwyr Gofal Iechyd, sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn	8
Cyrff yn y Sector Iechyd, nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn	3
Comisiynydd y Gymraeg	1
Rhanddeiliaid yr iaith Gymraeg	1
Cyrff yn yr Adran Addysg	1
Aelod o'r cyhoedd	1
CYFANSWM	15

- 2.4 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd. Ni wnaeth yr ymgynghoriad ofyn cwestiynau 'ticio blychau' caeedig, felly nid oes data meintiol (rhifiadol) ar gael. O fewn y dadansoddiad, rydym wedi darparu crynodeb sy'n nodi'r brif farn a fynegwyd a safbwyntiau amgen.

³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-03/rheoliadau-safonau-r-gymraeg-rhif-8-20xx.pdf>

Crynodeb o'r Ymatebion

Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cyflenwi gwasanaethau a gynigir yn y rheoliadau?

- 3.1. Gwnaeth 13 o'r ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r safonau cyflenwi gwasanaethau.
- 3.2. Gwnaeth pob un o'r 8 corff gofal iechyd a ymatebodd i'r ymgynghoriad sylwadau mewn perthynas â'r Safonau hyn. Ar y cyfan, roedd y sylwadau'n cefnogi cynnwys y safonau cyflenwi gwasanaethau ac roedd llawer o'r cyrff o'r farn eu bod yn bwysig o ran sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn cael ei datblygu yn y sector. Roedd amryw o'r cyrff yn cydnabod mai'r safonau cyflenwi gwasanaethau yw mwyafrif (33 o'r 51) y safonau a gynigir, a byddent yn disgwyl mai'r rhain fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar eu gwaith o ran maint ac adnoddau posibl. Fodd bynnag, roedd llawer o'r cyrff o'r farn hefyd eu bod eisoes yn cydymffurfio â nifer fawr o'r safonau drafft gan fod y safonau'n adlewyrchu ymrwymïadau sydd eisoes yn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Mae rhai o'r cyrff wedi tynnu sylw hefyd at y ffaith bod y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau Cymraeg wedi bod yn isel yn hanesyddol ac, mewn rhai achosion, na fu unrhyw alw am wasanaethau Cymraeg.
- 3.3. Mae sylwadau penodol mewn perthynas â'r safonau wedi'u nodi isod.

Gohebiaeth (Safonau 1-4)

- 3.4. Gofynnodd tri o'r cyrff am eglurhad ynghylch a yw Safon 2 yn berthnasol i ohebiaeth a anfonir i gyfeiriadau yng Nghymru neu i ohebiaeth a anfonir i gyfeiriadau ledled y DU.
- 3.5. Mae rhai cyrff o'r farn ei bod yn afrealistig nodi na fyddai unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth neu ddarparu gohebiaeth benodol yn Gymraeg (safonau 2 a 4) gan nad oes ganddynt gyfieithydd a'u bod yn dibynnu ar gyfieithu allanol. Nododd rhai cyrff y byddai oedi gohebiaeth yn Saesneg er mwyn ymateb yr un pryd yn y ddwy iaith yn afresymol. At hynny, nododd rhai o'r cyrff na fyddai'n rhesymol iddynt gyflogi cyfieithydd, a fyddai'n caniatáu iddynt baratoi fersiwn Gymraeg yn gynt, gan fod y galw am ohebiaeth yn Gymraeg yn isel.
- 3.6. O ran Safon 4, tynnodd rhai o'r cyrff sylw at y ffaith y gallai fod achosion lle mae'r angen i ymateb yn brydlon am resymau diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd yn golygu mai dim ond yn Saesneg rydym yn ymateb yn y lle cyntaf, gyda chyfieithiad i ddilyn.

Galwadau Ffôn (Safonau 5-7)

- 3.7. Denodd y Safonau hyn safbwyntiau gwahanol gan y cyrff gofal iechyd. Mae rhai o'r cyrff yn cytuno'n fras â'r safonau hyn ac yn ystyried eu bod yn rhesymol ac yn gymesur.

- 3.8. Mae rhai o'r cyrff wedi tynnu sylw at anawsterau ymarferol a phryderon ynghylch cymesuredd y Safonau, sy'n codi i raddau helaeth gan nad oes ganddynt aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg. Roedd yr ymatebion yn nodi bod galw isel neu ddim galw o gwbl am i alwadau ffôn gael eu hateb yn Gymraeg. Mae cyrff eraill yn codi pryderon y byddai angen iddynt gyflogi cyfieithydd allanol i ymdrin â galwad yn Gymraeg, a fyddai'n oedi'r amser ymateb ac yn achosi goblygiadau i wasanaeth cwsmeriaid i unigolion sy'n dymuno cynnal galwad ffôn yn Gymraeg. At hynny, nododd rhai o'r cyrff, o ganlyniad i beidio â bod ag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, y byddai angen iddynt wahodd y galwr i gyflwyno ei ymholiad yn ysgrifenedig, fel y gallai siaradwr Cymraeg ddychwelyd yr alwad. Byddai'r broses hon yn arwain at oedi wrth ymdrin â'r mater.
- 3.9. Denodd Safon 6 (gofyniad i system ffôn wedi'i hawtomeiddio fod yn Gymraeg) safbwyntiau gwahanol gan gyrff hefyd. Mae un corff wedi nodi y byddai'n gallu ychwanegu'r Gymraeg at ei wasanaeth, ond y byddai cost i hyn. Mae corff arall yn nodi y byddai gweithredu'r Safon hon yn gofyn am wasanaeth ffôn awtomatig newydd ac y byddai hyn yn arwain at gost sylweddol i'r corff, na ellid ei chyfiawnhau yn eu barn nhw o ystyried y defnydd cyfyngedig a wneir o'r gwasanaeth. Dywedodd dau o'r cyrff eu bod yn poeni y gallai gwasanaeth ffôn wedi'i awtomeiddio sy'n cyflwyno opsiynau yn Gymraeg (Safon 6) ac yn hysbysebu hynny (Safon 7) roi camargraff o allu'r corff i ddarparu gwasanaeth ffôn Cymraeg.

Safonau'n ymwneud â chorff yn cynnal cyfarfodydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd (Safonau 8 a 9)

- 3.10. Holodd rhai cyrff a yw'r Safonau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir gydag unigolion yng Nghymru yn unig, neu os bwriedir iddynt gwmpasu unrhyw ymgysylltiad ledled y DU gan nad yw Safon 8, yn eu barn nhw, yn gwneud y bwriad yn glir. Tynnodd un corff sylw at y ffaith bod Safon 9 yn cyfeirio at unigolion lle mae Safon 9, 9A –9C yn cyfeirio at bersonau.
- 3.11. Mae rhai cyrff wedi mynegi pryder y byddai'r Safonau hyn yn arwain at oblygiadau ariannol uchel pe bai gofyniad i gymhwyso'r Safonau i gwmpasu pob ymgysylltiad ledled y DU. Roedd un corff o'r farn na ellid cyfiawnhau'r costau pe bai llai na 30% o'r rhai a oedd yn bresennol yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod.
- 3.12. Yng ngoleuni'r pandemig Coronafeirws, holodd amryw o gyrff a fyddai'r Safonau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd rhithwir, a allai barhau i gael eu cynnal yn lle cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Safonau'n ymwneud â chyfarfodydd a drefnir gan gorff sydd ar agor i'r cyhoedd (Safonau 10-12)

- 3.13. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan i'r Safonau drafft.

- 3.14. Gofynnodd un corff am eglurder ynghylch y diffiniad o 'wahoddiad' yn Safon 11, gan ofyn yn benodol a fyddai'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwahoddiad a'r broses gofrestru fod ar gael yn Gymraeg.

Safonau'n ymwneud â digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff (Safonau 13-14)

- 3.15. Mynegodd un corff bryder na ddylai'r diffiniad o hysbyseb ymestyn i gynnwys offer rheoli digwyddiadau ar-lein y byddai cyrff yn eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau.
- 3.16. Mewn perthynas â Safon 14, awgrymodd un corff y dylid diwygio'r safon hon i fod yn gymwys i wasanaethau sydd o fewn eu rheolaeth yn unig, yn hytrach na gwasanaethau a ddarperir gan leoliad y gallant ei ddefnyddio i gynnal digwyddiad.

Safonau'n ymwneud â chorff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau a ffurflenni (Safonau 18-21)

- 3.17. Denodd y Safonau hyn amryw o sylwadau gan y cyrff gofal iechyd. Mae cefnogaeth gyffredinol i'r safonau o dan y pennawd hwn a'r bwriad i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg.
- 3.18. Mae rhai cyrff wedi gofyn am eglurder mewn perthynas â chymhwyso Safonau 18 a 19. Maent o'r farn na fyddai cyfieithu pob ffurflen 'sydd i'w chwblhau gan unigolyn' (Safon 18) a 'ffurflen gais yr ydych yn ei darparu i rywun sydd wedi cofrestru gael ei gynnwys ar y gofrestr' (Safon 19) yn rhesymol nac yn gymesur oherwydd y nifer fawr o ffurflenni a gynhyrchir gan y corff. Mae un corff yn esbonio ei fod wedi dehongli'r Safonau hyn i olygu y byddai'n ofynnol i ffurflen fod ar gael yn Gymraeg pe gofynnid amdani, yn hytrach na bod gofyniad bod pob ffurflen ar gael yn Gymraeg fel mater o drefn. Mae'r corff yn gofyn am eglurhad ynglŷn â'r dehongliad hwn. Mae corff arall wedi awgrymu mai dim ond y ffurflenni a ddefnyddir fwyaf o dan Safon 18 ddylai gael eu cyfieithu'n awtomatig. Maent yn cynnig mai dim ond ar gais y dylid cyfieithu ffurflenni eraill o dan Safon 18, a phob ffurflen o dan Safon 19, gyda'r gwasanaeth yn cael sylw ar wefan y cyrff.
- 3.19. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes ganddynt gofrestr o weithwyr proffesiynol statudol a reoleiddir.
- 3.20. Mae amryw o'r cyrff wedi mynegi pryderon am gostau cyfieithu'r ffurflenni ac wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai costau cychwynnol 'untro' a chostau parhaus pellach yn gysylltiedig â chynnal ffurflenni yn Gymraeg a chost ychwanegol yn gysylltiedig â chyfieithu ffurflenni wedi'u llenwi yn Gymraeg i'r Saesneg hefyd, fel y gall staff y corff weithredu arnynt. Holwyd ynghylch a fyddai Safon 21 yn cynnwys systemau cofrestru ar-lein. Mynegwyd pryderon ynghylch costau datblygu a chostau cynnal a chadw parhaus pe bai hyn yn digwydd.

- 3.21. Nid yw'r pryderon a godwyd yn cael eu rhannu ar draws yr holl reoleiddwyr gofal iechyd, ac nid oes gan rai ohonynt unrhyw bryderon mewn perthynas â safonau 18-21.

Safonau'n ymwneud ag achosion cyfreithiol (Safonau 22-25)

- 3.22. Mae pob un o'r 8 corff a fyddai'n dod o dan y Safonau hyn wedi gwneud sylwadau ar y categori hwn o safonau.
- 3.23. Nododd amryw o gyrff yn benodol fod y gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn cael eu cynnal yn Lloegr, ac eglurodd un ohonynt y gellid cynnal achos cyfreithiol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mae dau o'r gyrff yn teimlo y dylid ail-eirio safon 23A fel ei bod yn berthnasol i achosion sy'n digwydd yng Nghymru'n unig; rhoddodd un o'r ddau gorff y rheswm y byddai methiant i fod yn hyfedr yn gyfystyr â mater addasrwydd i ymarfer. Mynegodd corff arall bryder y byddai cyfieithu ein gwrandawiadau ar y pryd yn anghymesur o ran y costau a'r oedi posibl. Roeddent yn teimlo hefyd y gellid dadlau y gellid ystyried caniatáu i rai sydd wedi cofrestru gymryd rhan yn y Gymraeg fel trin siaradwyr Cymraeg yn fwy ffafriol na siaradwyr ieithoedd eraill.
- 3.24. Nododd pedwar o'r gyrff pe bai gwrandawriad yn ymwneud â rhywun sydd wedi cofrestru sy'n ymarfer yng Nghymru, neu os oedd aelodau'r cyhoedd/tystion o Gymru yn mynychu gwrandawriad, y byddent yn cael cynnig y dewis o annerch y gwrandawriad yn Gymraeg. Mae un corff yn cynnig y dewis, a dywedodd y ddau gorff arall y bydd trefniadau dehongli priodol yn cael eu gwneud. Eglurodd un o'r ddau gorff fod gwrandawiadau apêl yn yr Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau addasrwydd i ymarfer yn cael eu cynnal yng ngwlad y cyfeiriad a gofnodwyd ar gyfer y sawl sydd wedi cofrestru a, phe bai gwrandawiadau o'r fath yn cael eu cynnal yng Nghymru, y byddent yn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ar gael yn Gymraeg i'r rhai a oedd am eu cael.
- 3.25. Gofynnodd un corff am eglurder o ran sut y byddai Safon 23A yn cael ei chymhwyso i achosion cyfreithiol yn Lloegr. Mae ei ddeddfwriaeth lywodraethol yn nodi bod rhaid i wrandawiadau gael eu cynnal yng ngwlad y Deyrnas Unedig lle mae cyfeiriad cofrestredig yr unigolyn dan sylw wedi'i leoli.
- 3.26. Tynnodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol sylw at y camgymeriad yn y cyfeiriad at y safonau hyn yn Rheoliad 1.

Safonau'n ymwneud â gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff (Safonau 26-27)

- 3.27. Gwnaeth pedwar corff sylwadau mewn perthynas â'r Safonau hyn. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn gefnogol ar y cyfan. Roedd dau o'r gyrff o'r farn eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau mewn perthynas â gwefannau. Cododd y ddau gorff arall bryderon ynghylch costau untro unrhyw newidiadau dilynol i'w gwefan a'r ymrwymiad amser parhaus sydd ei angen i ddiweddarau'r tudalennau a'r dogfennau.

Safonau'n ymwneud â defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol (Safon 28)

- 3.28. Gwnaeth pedwar corff sylwadau ar y Safon hon, ac roedd pob un ohonynt yn cefnogi'r bwriad y tu ôl i'r Safon, ond cododd tri chorff bryder ynghylch nifer y negeseuon cyfryngau cymdeithasol y gallent eu derbyn yn Gymraeg ac oedi a chostau cysylltiedig eraill mewn perthynas â hynny. Mynegodd dau o'r cyrff bryder hefyd y gallai'r safon hon roi camargraff o allu unigolyn i gael cymorth yn Gymraeg wrth gysylltu â'r cyrff.

Safonau'n ymwneud â hysbysiadau swyddogol a wneir gan gorff (Safonau 29-30)

- 3.29. Gwnaeth pum corff sylwadau ar y Safonau hyn. Gofynnodd pedwar o'r cyrff am eglurhad o ystyr 'hysbysiad swyddogol' a gofynnodd tri o'r cyrff am eglurhad pellach ynghylch yr hyn a fyddai'n cael ei ddiffinio fel 'gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru'. Mynegwyd pryderon y gallai bron pob hysbysiad a gyhoeddir gan gorff ddod o fewn y diffiniad. Yn ogystal, codwyd pryderon penodol pe bai'r hysbysiad o wrandawiadau, sy'n gysylltiedig â gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer, yn dod o fewn cwrmpas y Safon. Tynnodd y pedwar corff sylw at y ffaith y byddai goblygiadau cost sylweddol.

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff (Safonau 31-32)

- 3.30. Roedd y pedwar corff a wnaeth sylwadau ar y safonau hyn yn cefnogi'r safonau ac o'r farn y byddent yn gallu cydymffurfio â'r dyletswyddau. Nododd y cyrff eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau'n llawn neu'n rhannol.

Safon yn ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol corff (Safon 33)

- 3.31. Gwnaeth pum corff sylwadau ar y safon hon. Roedd tri o'r cyrff o'r farn eu bod yn cydymffurfio â'r safon neu y byddent yn gallu cydymffurfio â hi. Teimlai un corff, fel sefydliad bach heb unrhyw bresenoldeb ffisegol yng Nghymru, y byddai'n anghymesur iddo gydymffurfio'n llawn gan y byddai costau'n gysylltiedig â newid ei logo ac ati. Roedd gan yr un corff bryderon hefyd y gallai cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog roi argraff anghywir o allu'r corff i gyfathrebu yn Gymraeg neu ei bresenoldeb ffisegol yng Nghymru.

Sylwadau gan sectorau eraill

Cyrff yn y sector lechyd ond nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn

- 3.32. Y Coleg Nyrsio Brenhinol oedd yr unig gorff yn y categori hwn i ymateb i'r cwestiwn hwn. Gwnaethant fynegi eu barn y dylid darparu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Maent o'r farn bod ymdeimlad o amwysedd o ran pa safonau fyddai'n berthnasol i ba gyrff. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn credu y dylai'r safonau gael eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg ac y dylid rhoi mesurau ar waith i asesu beth a phryd mae'n ofynnol i gyrff rheoleiddio gadw atynt.

- 3.33. Gwnaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol sylwadau penodol mewn perthynas â'r safonau sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol (safonau drafft 22-35). Eu barn yw y dylai siaradwr Cymraeg, boed yn aelod o'r cyhoedd neu'n rhywun sydd wedi cofrestru, allu derbyn gwybodaeth yn Gymraeg ac, os oes angen, mynd drwy'r broses gwyno a chyfreithiol fel siaradwr Cymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg

- 3.34. Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg amryw o sylwadau ynghylch y categori hwn o Safonau a thynnodd sylw at y safonau canlynol y teimlai y dylid eu cynnwys yn y safonau cyflenwi gwasanaethau, neu sylwadau penodol am y canlynol:
- Gohebiaeth (Safonau 1-4) - mae'r Comisiynydd wedi nodi bod y safonau'n ymwneud â chorff sy'n cychwyn gohebiaeth ag un unigolyn.
 - Galwadau ffôn (Safonau 5-7) - ni chynigiwyd unrhyw safonau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff gyfarch person sy'n galw o Gymru yn Gymraeg. Yn ogystal, mae safon 5 yn rhoi'r cyfrifoldeb ar yr unigolyn i ofyn am wasanaeth Cymraeg dros y ffôn ac nid yw'n ofynnol i gyrff eu hysbysu bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae'r Comisiynydd yn nodi hefyd nad oes unrhyw ofynion ar gyfer galwadau a wneir i linellau ffôn uniongyrchol y gyrff, na phan fyddant yn ffonio pobl eu hunain. O ganlyniad, mae'r Comisiynydd yn nodi ei bod yn ymddangos mai prin yw'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg dros y ffôn gyda'r sefydliadau hyn.
 - Cyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un unigolyn a wahoddwyd – Mae'r Comisiynydd yn nodi nad oes darpariaethau yn Safonau 9A i 9C a fyddai'n galluogi corff i gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg heb fod angen gwasanaeth cyfieithu o dan amgylchiadau lle byddai'n bosibl gwneud hynny.
 - Safonau ar gyfer cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd (safonau 10-12) – Nid oes safon wedi'i chynnwys a fyddai'n darparu gwasanaeth cyfieithu fel un diofyn pan fo corff yn trefnu cyfarfod sydd ar agor i'r cyhoedd a lle y caniateir i'r cyhoedd gymryd rhan.
 - Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau a ffurflenni (Safonau 18-21) – Mae'r Comisiynydd yn awgrymu y dylid diwygio safon 19 i gynnwys gofyniad i lunio ffurflenni sydd ar gael i unigolyn sydd wedi cofrestru (a) os yw pwnc y ffurflen honno'n awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa ddisgwyliedig yng Nghymru a bod disgwyliadau'n awgrymu y dylid llunio'r ffurflen yn Gymraeg. Mewn perthynas â dogfennau, mae'r Comisiynydd o'r farn y dylid diwygio'r safonau i sicrhau bod dogfennau sydd ar gael i unigolion ar gael yn Gymraeg bob amser, heb fod angen asesiad. Mae'r Comisiynydd yn awgrymu ychwanegu safon hefyd a fyddai'n caniatáu i o leiaf rai dogfennau i'w

defnyddio gan rai sydd wedi cofrestru fod ar gael yn Gymraeg hefyd, fel y cynigiwyd ar gyfer y ffurflenni uchod.

- Safonau'n ymwneud â gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff (Safonau 26-27) – Roedd y Comisiynydd o'r farn bod y safonau hyn yn gyfyngedig. Dywedodd y Comisiynydd nad oes safon gynhwysfawr a fyddai'n ymestyn i'r wefan gyfan, fel sydd wedi'i chynnwys yn setiau blaenorol o reoliadau. Er y derbyniwyd y gallai hyn fod yn fan cychwyn rhesymol a chymesur i lawer o'r cyrff perthnasol, hoffai'r Comisiynydd weld gofyniad 'dewislen' gydag opsiwn mwy cynhwysfawr y gellid ei osod yn raddol ar gyfer rhai sefydliadau. Dywedodd y Comisiynydd mai effaith hyn yw bod gallu'r safonau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gyfyngedig.
- Safonau'n ymwneud â defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol (Safon 28) - Nododd y Comisiynydd ei farn bod angen cynnwys safon sy'n gosod dyletswyddau ar gyrff i gyhoeddi negeseuon yn Gymraeg, yn enwedig pan fwriedir iddynt fod ar gyfer cynulleidfya Gymreig. Wrth i gyrff wneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth, dywedodd y dylai'r un math o wybodaeth a gyhoeddir drwy'r cyfrwng hwn gael ei chyhoeddi yn Gymraeg, fel sy'n ofynnol drwy ddulliau eraill o dan y safonau sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd a deunyddiau hysbysebu corff.

3.35. Tynnodd ymateb y Comisiynydd sylw at y gweithgareddau canlynol na chyfeiriwyd atynt yn y Safonau:

- cyrsiau
- systemau sain
- gwasanaethau derbynfa
- arwyddion
- dyfarnu ceisiadau am gontractau, a
- dyfarnu ceisiadau am grantiau (i'r graddau y mae ganddynt y pŵer a'r swyddogaeth i wneud hynny).

3.36. Argymhellodd y Comisiynydd y dylid ychwanegu safon(au) penodol ychwanegol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff rheoleiddio gasglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg y rhai sydd wedi cofrestru gyda nhw. Mae'r Comisiynydd yn awgrymu y byddai'r Safonau hyn yn addas fel safonau cyflenwi gwasanaethau gan mai bwriad y gofyniad fyddai hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Disgrifiodd y Comisiynydd y byddai gofyniad o'r fath yn cyflawni'r nod o ddatblygu *'gweithlu sy'n gallu diwallu anghenion iechyd a gofal pobl drwy gyfrwng y Gymraeg'*, yn unol â strategaeth y gweithlu lechyd a Gofal.

Rhanddeiliaid yr iaith Gymraeg

3.37. Mae Cymdeithas yr Iaith o'r farn bod y Safonau cyflenwi gwasanaethau yn anghyflawn ac yn colli'r cyfle i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i siaradwyr Cymraeg a gwella profiadau siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio'r gwasanaethau

hynny. Mae Cymdeithas yr Iaith yn cyfeirio at baragraff 3.3 o'r ddogfen ymgynghori, sy'n cyfeirio at bryderon a fynegwyd gan rai o'r cyrff Rheoleiddio yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad yn 2016, am oblygiadau ariannol gorfod darparu gwasanaethau Cymraeg i'r rhai sydd wedi cofrestru gyda nhw. Maent o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi paratoi Safonau cyfyngedig sydd wedi'u llywio gan fuddiannau'r cyrff rheoleiddio yn hytrach na hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

3.38. Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu'n gryf y dylai rhai sydd wedi cofrestru, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd ddisgwyl yr un casgliad o wasanaethau Cymraeg gan y cyrff rheoleiddio gofal iechyd, ble bynnag y lleolir eu swyddfeydd yn y Deyrnas Unedig. Am y rheswm hwn, dylid gosod dyletswyddau arnynt i gynnwys y darpariaethau canlynol:

- Cyfarch ffôn yn Gymraeg
- Gwybodaeth bod gwasanaeth Cymraeg ar gael
- Gwybodaeth y gellir gadael neges yn Gymraeg
- Gwahoddiad i ddatgan dymuniad i dderbyn gohebiaeth neu alwad ffôn yn Gymraeg
- Protocol ar waith ar gyfer ateb y ffôn yn Gymraeg a gwasanaeth Cymraeg ar gyfer systemau ffôn wedi'u hawtomeiddio
- Darpariaeth cyfieithu ar y pryd i gael ei darparu mewn cyfarfod lle mae mwy nag un person, os yw o leiaf un defnyddiwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg
- Pob tudalen yn Gymraeg ar wefannau'r cyrff
- Gwasanaethau derbynfa yn Gymraeg
- Prif arwyddion yn Gymraeg
- Yr holl gyfarwyddiadau, codau, safonau, taflenni gwybodaeth a ffurflenni yn Gymraeg
- Yr holl drefniadau a dogfennau cofrestru yn Gymraeg
- Yr holl drefniadau a dogfennau addasrwydd i ymarfer yn Gymraeg

Cyrff yn y Sector Addysg

3.39. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn croesawu'r ymrwymiad yn y ddogfen i gryfhau'r gwasanaethau Cymraeg y mae'r rheoleiddwyr yn eu darparu i'r cyhoedd ac i'w gwneud yn glir i'r rheoleiddwyr beth sydd angen iddynt ei wneud o ran darparu gwasanaethau Cymraeg. Maent o'r farn y bydd dod â chyrff sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol y sector iechyd a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol o dan y system safonau'n cryfhau ac yn prif ffrydio'r Gymraeg ymhellach yn y sector iechyd.

3.40. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn nodi nad yw'r rhain yn gyrrff y mae pobl yn debygol o ymwneud â nhw o ddydd i ddydd, ond maent o'r farn, os bydd aelod o'r cyhoedd am gwyno am weithiwr iechyd proffesiynol, y dylai unigolyn allu gwneud hynny yn yr iaith o'i ddewis. Maent yn croesawu cynnwys y safonau sy'n ymwneud â gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer hefyd ac maent o'r farn y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n wynebu gwrandawriad addasrwydd i ymarfer defnyddio'r Gymraeg yn ystod y broses honno.

3.41. Mae'r Coleg Cymraeg o'r farn bod yr hawliau hyn yn hanfodol yng nghyd-destun polisi ehangach Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac, yn benodol, strategaeth *Mwy Na Geiriau* y Llywodraeth gyda'r nod o gryfhau'r Gymraeg ym maes iechydd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'r Coleg yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru, a amlinellir yn y strategaeth *Mwy na Geiriau*, bod sicrhau diogelwch, urddas a pharch siaradwyr Cymraeg yn hanfodol bwysig wrth ddarparu gwasanaethau iechydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent o'r farn ei fod yn golygu mwy na chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chynnal safonau proffesiynol yn unig; mae'n ymwneud hefyd â gwella ansawdd gofal a diwallu anghenion ieithyddol pobl, a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Aelod o'r cyhoedd

3.42. Mae aelod o'r cyhoedd wedi gwneud sylwadau mewn perthynas â Safon 3. Gwnaed sylwadau bod y gofyniad, fel y'i drafftiiwyd, ar gorff i beidio â thrin gohebiaeth Gymraeg yn llai ffafriol na gohebiaeth Saesneg yn amodol ar yr angen i gorff lunio fersiwn Saesneg o ohebiaeth. Mae'r ymatebydd o'r farn, mewn sefyllfa lle mae corff ond yn llunio fersiwn Gymraeg o ohebiaeth, fod geiriad y safon yn awgrymu nad oes gofyniad ar gorff i sicrhau ansawdd yr ohebiaeth (e.e. o ran ystyr a mynegiant yr ohebiaeth). Argymhellir bod geiriad y safon yn sicrhau y bydd corff yn parhau i sicrhau ansawdd yr ohebiaeth a gynhyrchir yn Gymraeg mewn sefyllfa lle nad yw'n cynhyrchu gohebiaeth Saesneg hefyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Newidiadau a wnaed i'r rheoliadau o ganlyniad i'r sylwadau a wnaed:

- Mae Rheoliad 1 wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn glir nad yw Safon 19 o'r Rheoliadau drafft yn berthnasol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol gan nad oes ganddynt gofrestr o weithwyr proffesiynol a reoleiddir fel y cyrff eraill sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn.
- Mae'r pennawd yn union cyn Safon 8 wedi'i newid o "person" i "unigolyn" i fod yn gyson â'r safon.
- Mae Safon 8 wedi'i diwygio fel ei bod yn glir bod y Safon yn berthnasol i gyfarfod a gynhelir yng Nghymru, fel sy'n wir am Safonau 9-9C.
- Mae Safonau 9A i 9C wedi'u diwygio i ddarparu ar gyfer cynnal cyfarfodydd heb wasanaeth cyfieithu o dan amgylchiadau lle mae hyn yn bosibl;
- Mae Safon newydd wedi'i chynnwys i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru lle caniateir i'r cyhoedd gymryd rhan;
- Safon newydd sy'n gosod dyletswydd ar gorff i gyhoeddi negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg os yw'r neges honno'n ymwneud â Chymru yn unig.
- Mae Safonau 29 a 30 a phennawd y Safonau hyn yn cyfeirio at 'hysbysiadau' yn hytrach na 'hysbysiadau swyddogol' bellach mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd.
- Mae Safonau newydd sy'n ymwneud ag ymchwilio i rai sydd wedi cofrestru, a allai arwain at achosion cyfreithiol, wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau. Mae'r

dyletswyddau ychwanegol yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddiwr gofal iechyd ofyn i'r sawl sydd wedi cofrestru a yw'n dymuno derbyn ffurflenni a dogfennau mewn perthynas ag ymchwiliad a allai arwain at achos cyfreithiol yn Gymraeg ac, os felly, rhaid darparu hynny. Gall rhywun sydd wedi cofrestru lenwi ffurflenni a chyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, a chynhelir galwadau a chyfarfodydd yn Gymraeg lle mae'r sawl sydd wedi cofrestru yn dymuno hynny. Rydym yn gwerthfawrogi efallai na fydd yn rhesymol nac yn gymesur i'r holl gyrff rheoleiddio gydymffurfio â safonau o'r fath ar unwaith. Felly, bydd y safonau'n darparu opsiwn i'r corff drefnu bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael lle na ellir cynnal y cyfarfod yn Gymraeg. Gwnaed y newidiadau hyn o ganlyniad i'r sylwadau a wnaed gan y Coleg Nyrsio Brenhinol a galwad gan Bwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg y bumed Senedd a oedd o'r farn y dylai rhai sydd wedi cofrestru allu trafod cwyn a wnaed amdanynt yn Gymraeg gyda'r corff Rheoleiddio mewn cydestun ehangach nag achosion cyfreithiol.

Sylwadau pellach:

Mae llawer o'r sylwadau a wnaed gan y rheoleiddwyr gofal iechyd yn faterion sy'n ymwneud â rhesymoldeb a chymesuredd y safonau, sut y byddent yn berthnasol i gorff penodol ac o dan amgylchiadau penodol. Credwn fod y materion hyn yn fwy priodol i'w trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r broses o gyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio, felly nid ydym yn bwriadu ymateb i bob ymholiad a godwyd yn yr ymatebion.

Mae Comisiynydd y Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith wedi cyflwyno amryw o enghreifftiau o weithgareddau neu safonau penodol sydd wedi'u hepgor o'r Rheoliadau hyn, o gymharu â setiau blaenorol o reoliadau. Wrth baratoi'r rheoliadau hyn, rydym wedi ystyried yn ofalus pa wasanaethau mae'r gyrff yn eu darparu, natur y gyrff a lleoliad eu swyddfeydd. Dyma'r tro cyntaf i ni baratoi Rheoliadau lle mae'r holl gyrff sy'n ddarostyngedig i set o safonau yn gyrff yn y DU sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a gweddill y DU.

Safon 2

Hoffem dynnu sylw gyrff at y dehongliad yn Rheoliad 1(4); mae'r Safonau'n gymwys yng Nghymru gan fod "unigolion" yn cael eu diffinio yn y Rheoliadau fel "*person naturiol sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru*". Felly, nid ydym yn credu bod angen newid testun safon 2 gan mai dim ond i ohebiaeth a anfonir i unigolion yng Nghymru y mae'n berthnasol.

Safon 3

Nid ydym yn cytuno ag awgrym yr aelod o'r cyhoedd y dylai'r safon gael ei diwygio i osod dyletswydd ar gorff i sicrhau ansawdd yr ohebiaeth a gynhyrchir yn Gymraeg mewn sefyllfa lle nad yw'n cynhyrchu gohebiaeth Saesneg hefyd. Credwn fod pob corff yn ymdrechu i sicrhau ansawdd pob gohebiaeth, felly nid oes angen pennu hynny mewn rheoliadau.

Safonau 18 a 19

Rydym wedi nodi'r pryderon a godwyd mewn perthynas â Safonau 18 a 19. Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes angen newid y Safonau hyn gan nad oedd pob un o'r rheoleiddwyr gofal iechyd wedi codi pryderon. Teimlwn o hyd bod yr amcan polisi y tu ôl i'r safon yn dal i fod yn ddilys ac yn rhesymol, a bod gweithredu'r safon yn fater y gall y Comisiynydd ymdrin ag ef mewn hysbysiadau cydymffurfio.

Safon 23 A

Mae Adran 22 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gwneud darpariaeth ynghylch siarad Cymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru. Bwriad y polisi y tu ôl i safon 23(A) oedd rhoi'r un hawl i rai sydd wedi cofrestru pe baent yn destun gwrandawriad addasrwydd i ymarfer a gynhelir y tu allan i Gymru. Mae'r safon hon yn ymwneud ag achosion yn Lloegr yn unig gan fod pwerau Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau yn ymwneud â Chymru a Lloegr yn unig.

Rydym yn cefnogi'r bwriadau y tu ôl i'r cynnig a gyflwynwyd gan y Comisiynydd (a'r cynnig tebyg gan Gymdeithas yr Iaith yn eu hymateb i'r safonau cadw cofnodion) i gynnwys safonau ychwanegol i osod dyletswyddau ar reoleiddwyr i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am allu a pharodrwydd rhywun sydd wedi cofrestru i ymarfer yn Gymraeg. O'r herwydd, gwnaethom gynnal ymchwiliadau polisi i chwilio am ffyrdd o gyflawni'r amcan hwn, ond rydym o'r farn bod amryw o rwystrau yn gysylltiedig â'r amcan hwn:

- Yn y lle cyntaf, nid yw'r cynnig yn ymwneud â gweithgarwch cyflenwi gwasanaethau'r cyrff eu hunain, felly ni ellir ei bennu fel safon cyflenwi gwasanaethau;
- nid yw lefel yr wybodaeth a arddangosir yn gyhoeddus ar gofrestri rhai o'r rheoleiddwyr yn addas i arddangos data ar allu ieithyddol. Byddai newid hynny yn gofyn am newid polisi ar lefel y data a arddangosir a gallai fod yn gostus i'w weithredu;
- rydym o'r farn mai budd polisi cyfyngedig fyddai'n deillio o ofyn i gyrff rheoleiddio gasglu gwybodaeth o'r fath gan nad yw defnyddwyr mewn sefyllfa lle mae ganddynt ddewis bob amser wrth gael mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol (e.e. meddygon a nyrsys mewn lleoliad GIG). Felly, yn ymarferol, dim ond pan fydd cleifion yn dewis ymarferydd y byddai'r polisi'n ddefnyddiol.

Gan ystyried pob un o'r ffactorau hyn, rydym wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y mater hwn.

Cwestiwn 2: Mae Rhan 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn cynnwys dehongliadau ar gyfer rhai o'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Mae paragraffau 16-37 yn esbonio sut mae rhai o'r safonau'n gweithio ac o dan ba amgylchiadau y maent yn berthnasol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dehongliad o'r safonau a nodwyd yn Rhan 3?

3.43. Gwnaeth 10 o'r ymatebion sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Rheoleiddwyr Gofal Iechyd

3.44. Gwnaeth 7 o'r rheoleiddwyr gofal iechyd sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd sylwadau cyffredinol gan y cyrff hyn yn croesawu cynnwys adran ddehongli. Mae dau gorff wedi gofyn am eglurhad neu drafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru ynghylch i bwy y byddai'r safonau cyflenwi gwasanaethau'n berthnasol, ac o dan ba senarios, ac mae un corff wedi gwneud sylwadau ynghylch absenoldeb diffiniad o 'berson'.

3.45. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi codi pryderon ynglŷn â'r diffiniad o 'unigolyn' ac, yn arbennig, cynnwys myfyrwyr meddygol yn y diffiniad hwn. Esboniodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol eu bod yn ystyried myfyrwyr meddygol fel aelodau o'r

proffesiwn yn y dyfodol, yn gwbl wahanol i aelodau'r cyhoedd. Maent yn dweud bod eu gwasanaethau Cymraeg yn cwmpasu "cleifion a'r cyhoedd", felly nid yw gwasanaethau i rai sydd wedi cofrestru, rhai sy'n gwneud cais i gofrestru a myfyrwyr meddygol yn cael eu cyfieithu na'u cadw yn Gymraeg ar hyn o bryd. Byddai cynnwys myfyrwyr meddygol yn y diffiniad o 'unigolion' yn effeithio ar yr holl ganllawiau a dogfennau a fyddai neu a allai fod yn berthnasol iddynt (Safon 20). Credant felly y byddai cynnwys myfyrwyr meddygol o dan y diffiniad o 'unigolyn' nid yn unig yn anghymesur o ran cost, ond hefyd yn anghyson â'r ffordd y cânt eu hystyried yn y proffesiwn meddygol a sut y maent yn rhyngweithio â nhw. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol o'r farn bod y rhan fwyaf o'u cyswllt â myfyrwyr meddygol oherwydd y byddant yn aelodau o'r proffesiwn yn y dyfodol ac nid o reidrwydd mewn perthynas â'u materion personol. Maent yn awgrymu y dylai priodoldeb cynnwys myfyrwyr meddygol yn y diffiniad presennol o 'unigolion' gael ei ailystyried.

Sylwadau gan sectorau eraill

Cyrff yn y sector lechyd ond nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn

- 3.46. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn croesawu cynnwys adran ddehongli yn y Rheoliadau ac, yn eu barn nhw, bydd yn cyfyngu ar gamddechongli ac yn cyflwyno canllawiau clir. Fodd bynnag, maent yn dweud nad yw pob Safon yn cael sylw yn yr adran hon. Maent yn codi pryderon hefyd '*nad yw'r dehongliadau'n taflu goleuni ffafriol ar y Gymraeg*'. Er enghraifft:
- Mae paragraff 25 yn cyfeirio at ddechongli deunyddiau a arddangosir ar wefan y corff. Mae'n dweud nad oes angen i'r corff arddangos deunydd ar ei wefan yn Gymraeg. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn poeni bod hyn yn ffafrio'r Saesneg dros y Gymraeg. Roeddent o'r farn y dylai fod opsiwn i gyfieithu'r wefan i'r Gymraeg. Fel arall, maent o'r farn y dylid cyfieithu gwybodaeth bwysig benodol i'r Gymraeg a'i harddangos ar dudalen we y gellir cael mynediad ati'n rhwydd o dudalen hafan y cyrff.
 - Mae paragraff 30 yn darparu dehongliad o Safon 24 (gofyniad i gorff ofyn i rai sydd wedi cofrestru a ydynt yn dymuno ymateb i achos cyfreithiol a derbyn copïau o ddogfennau yn Gymraeg) ac yn nodi y bydd y gofyniad yn gymwys y tro cyntaf y bydd rhywun sydd wedi cofrestru yn cysylltu â chorff ar ôl i hysbysiad cydymffurfio'r corff ofyn am i safonau ddod i rym. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn credu'n gryf y dylai Cyrff Rheoleiddio ddechrau cynnig opsiwn Cymraeg i rai sydd wedi cofrestru cyn gynted ag y bo'n briodol, waeth a ydynt wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio ai peidio. Byddai hyn yn sicrhau nad yw'r corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Comisiynydd y Gymraeg

- 3.47. Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg sylwadau am y dehongliad o'r term 'unigolyn' hefyd. Ym marn y Comisiynydd, mae wedi'i gyfyngu'n sylweddol o gymharu â rheoliadau blaenorol, gan ei fod yn eithrio unrhyw berson sydd wedi cofrestru gyda'r

corff ac yn gweithredu fel rhywun sydd wedi cofrestru. Mae'r Comisiynydd yn tynnu sylw at y ddogfen ymgynghori, sy'n awgrymu mai'r prif reswm am hyn yw cost, gan ddweud bod '*rhai o'r cyrff Rheoleiddio wedi mynegi pryder am oblygiadau ariannol gorfod darparu gwasanaethau Cymraeg i'w hunigolion cofrestredig.*' (paragraff 3.3). Mae'r Comisiynydd yn pwysleisio nad yw'r gost, ynddi'i hun, yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur. Mynegir pryderon y bydd cyfyngu ar y dehongliad o 'unigolyn' yn golygu colli cyfle i ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael i weithwyr yn y sector gofal iechyd wrth iddynt ymdrin â'r cyrff sy'n eu rheoleiddio – gan mai dim ond i'r cyhoedd y bydd llawer o'r safonau'n berthnasol.

- 3.48. Mae'r ymateb yn nodi bod gweithwyr mewn sectorau eraill, megis yn y sector iechyd, eisoes wedi gweld eu hawliau'n ymestyn i agweddau newydd ar eu bywydau gwaith drwy Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018. Mae'r Comisiynydd o'r farn nad yw'n glir pam y byddai hawliau'r rhai yn y sector gofal iechyd yn gyfyngedig wrth ymdrin â'r cyrff rheoleiddio yn benodol. Nid yw'r Comisiynydd yn credu bod angen cyfyngu ar y safonau yn y rheoliad gan ei fod o dan ddyletswydd i ystyried pa safonau i'w gosod mewn hysbysiad cydymffurfio, er mwyn sicrhau bod y safonau hynny'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer pob corff unigol.
- 3.49. Mae Aelod o'r cyhoedd wedi gwneud y sylwadau canlynol hefyd:
- Paragraff 26 – Mae'r ymatebydd yn awgrymu y dylai'r rheoliadau gadarnhau nad oes dim i atal corff rhag cynhyrchu dogfennau yn Gymraeg yn unig neu yng Nghymru yn gyntaf.
 - Paragraff 31 – Mae'r paragraff hwn yn nodi nad yw Safonau'n berthnasol i ddeunyddiau a rennir ar wefannau nad ydynt wedi'u cynhyrchu gan y corff - mae'r ymatebydd o'r farn y dylai'r Safonau nodi pa Safonau sy'n berthnasol.
 - Paragraff 33 – Mae'r paragraff hwn yn nodi nad yw Safonau'n berthnasol i ddeunyddiau a rennir drwy'r cyfryngau cymdeithasol nad ydynt wedi'u cynhyrchu gan y corff - mae'r ymatebydd o'r farn y dylai'r Safonau nodi pa Safonau sy'n berthnasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Newidiadau a wnaed i'r rheoliadau o ganlyniad i'r sylwadau a wnaed:

- Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, rydym wedi ychwanegu darpariaeth ddehongli newydd i Ran 3 o Atodlen 1 sy'n dweud nad yw safon 20 yn berthnasol i ddogfen a gynhyrchir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer rhai sydd wedi cofrestru.

Newidiadau drafftio eraill i'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau:

- Ychwanegwyd paragraffau ychwanegol sy'n ymwneud â safonau cyflenwi gwasanaethau newydd.

Sylwadau pellach:

Mae'r adran ddehongli yn nodi amgylchiadau pan na ddylai Safonau penodol fod yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw hon i fod yn rhestr hollgynhwysol, felly lle nad oes angen dehongliad o safon benodol, ni roddwyd un. Os bernir bod hynny'n angenrheidiol, gall Comisiynydd y Gymraeg ddewis paratoi Cod Ymarfer a fydd yn rhoi cyngor pellach mewn perthynas â chymhwyso Safonau'n ymarferol.

Mae'r diffiniad o unigolyn wedi'i deilwra i weddu i'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn. Mae'r cyrff hyn yn wahanol iawn i'r byrddau iechyd a'r cyrff eraill sy'n ddarostyngedig i Reoliadau blaenorol. Mae'r cyrff hynny wedi'u lleoli yng Nghymru ac mae llawer ohonynt yn cyflogi miloedd o staff yng Nghymru, felly barnwyd ei bod yn rhesymol cymhwyso safonau i gyrff o'r fath i roi hawliau i'w staff dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Nid ydym yn credu bod cymharu hawl meddyg, er enghraifft, sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac sy'n cael ei gyflogi gan BILI yn gymhariaeth deg mewn perthynas â'r hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur i'w gyflogwr ei ddarparu.

Mae cynnwys dim ond y Safonau sy'n rhesymol ac yn gymesur yn ein barn ni ar gyfer y cyrff a restrir yn y rheoliadau yn cyflawni rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau sy'n rhesymol ac yn gymesur. Mae'n rhoi eglurder i'r cyrff hefyd. Credwn fod yr ymagwedd hon yn fwy democrataidd o gymharu â chaniatáu i'r Comisiynydd ddewis o blith casgliad ehangach o safonau.

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau llunio polisi a gynigir yn y rheoliadau?

3.50. Derbyniwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Rheoleiddwyr Gofal Iechyd

- 3.51. Cafwyd sylwadau gan bob un o'r 8 rheoleiddiwr gofal iechyd a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Roedd pob un o'r cyrff yn cefnogi'r bwriad y tu ôl i'r safonau llunio polisi drafft. Dywedodd rhai o'r cyrff eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu eu gwasanaethau cyhoeddus. Cyfeiriodd llawer o'r cyrff at y darpariaethau yn eu cynlluniau iaith Gymraeg i ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu a gweithredu polisïau newydd. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn egluro bod ystyriaeth o'r effaith ar siaradwyr Cymraeg yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi drwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, cododd llawer o'r cyrff bryderon penodol am fanylion rhai o'r Safonau ac roeddent o'r farn nad oeddent yn rhesymol nac yn gymesur. Nid oedd y farn hon yn unfrydol ymhlith yr holl gyrff a fydd yn ddarostyngedig i Safonau.
- 3.52. Gan gyfeirio at Safonau drafft 34-39, mae sylwadau gan y rheoleiddwyr gofal iechyd yn codi amryw o faterion gweithredu. Mae llawer o reoleiddwyr yn ceisio cael eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n ofynnol ganddynt o ran cyflawni'r uchelgais o gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac mewn perthynas â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mynegwyd pryderon y byddai dyletswydd ar reoleiddwyr ledled y DU i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn arbennig yn anghymesur gan nad oes ganddynt adnoddau staff. Nododd dau

reoleiddiwr eu barn na fyddai'r Safonau hyn yn gymesur gan nad oes ganddynt bolisiâu ar wahân na phroses datblygu polisi i Gymru.

- 3.53. Gwnaeth dau o'r rheoleiddwyr gofal iechyd sylwadau penodol ynghylch Safonau drafft 40, 41 a 42. Nododd y ddau nad yw'r effaith ar y Gymraeg yn debygol o fod yn berthnasol i lawer iawn o'r ymchwil y maent yn ei chomisiynu. Maent yn gwneud eu hymchwil ar lefel y DU ac mae'n tueddu i fod â nodau ehangach, er enghraifft, nodi nodweddion proffesiynoldeb neu sefydlu barn ar newidiadau i safonau neu bolisiâu proffesiynol penodol. Roedd y ddau gorff o'r farn y byddai neilltuo amser / cost benodol o gyllideb ymchwil i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn anghymesur.
- 3.54. Ymddengys hefyd y gallai dau o'r rheoleiddwyr gofal iechyd fod wedi dehongli'r safonau llunio polisi fel gofynion i'r Gymraeg gael ei hymgorffori yn eu safonau proffesiynol eu hunain.

Cyrff yn y sector iechyd ond nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn

- 3.55. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn croesawu'r safonau llunio polisi drafft a'u cyfraniad at sicrhau nas effeithir yn andwyol ar y Gymraeg yn y broses o lunio polisi. Fodd bynnag, nododd y Cyngor Nyrsio Brenhinol ei bryder bod diffyg uchelgais yn y Rheoliadau i gynyddu addysg, yn benodol mewn perthynas â phynciau clinigol, drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent o'r farn y byddai polisi o'r fath o fudd mawr i weithlu'r dyfodol a byddent yn gweithio tuag at yr uchelgais o gynyddu'r cyfleoedd i siarad Cymraeg mewn lleoliadau proffesiynol, a byddai'n sicrhau hefyd nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.56. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn bod y safonau llunio polisi drafft yn briodol.

Rhanddeiliaid yr iaith Gymraeg

- 3.57. Roedd Cymdeithas yr Iaith o'r farn bod y safonau llunio polisi drafft yn anghyflawn gan eu bod yn colli'r cyfle i ddylanwadu ar safonau addysgol a chodau ymarfer pob un o'r cyrff. Yn benodol, mae Cymdeithas yr Iaith o'r farn ei bod yn hanfodol bod y safonau llunio polisi arfaethedig yn ymrwymo'r cyrff rheoleiddio i:
- sicrhau bod eu safonau addysg yn bodloni'r galw am gynllunio a darparu gweithlu penodol yng Nghymru sy'n diwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol ei phoblogaeth; a
 - sicrhau bod eu codau ymarfer yn ystyried pwysigrwydd iaith fel rhan annatod o ofal er mwyn sicrhau diogelwch ac ansawdd y gwasanaeth.
- 3.58. Mae Cymdeithas yr Iaith o'r farn hefyd bod angen mwy o arweinyddiaeth ar y cyrff rheoleiddio wrth baratoi codau ymarfer sy'n adlewyrchu pwysigrwydd iaith yn y sector gofal iechyd h.y. gallent adlewyrchu arwyddocâd y 'cynnig gweithredol' (h.y. na ddylai siaradwyr Cymraeg orfod gofyn am wasanaeth yn Gymraeg). Maent o'r farn y dylai'r safonau llunio polisi alluogi Comisiynydd y Gymraeg i fonitro sut mae'r cyrff

rheoleiddio yn gosod eu safonau proffesiynol eu hunain. Byddai hyn o ran cynnal addysg ac ymarfer sy'n diwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol pobl Cymru; a sicrhau diogelwch ac ansawdd gwasanaethau, yn unol â gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru.

Cyrff yn y Sector Addysg

- 3.59. Nid yw sylwadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn mynegi barn benodol ynglŷn â'r safonau drafft. Fodd bynnag, maent yn amlinellu pwysigrwydd pennu safonau llunio polisi effeithiol i sicrhau bod cyd-destun Gwasanaeth Iechyd a Gofal dwyieithog yn cael ei werthfawrogi, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio a datblygu'r gweithlu. Yn ogystal, gan fod y cyrff yn gweithio ar draws y Deyrnas Unedig, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o'r farn ei bod yn hanfodol bwysig bod y polisiau cyhoeddus a ddatblygir gan y cyrff yn adlewyrchu ac yn gweithredu o fewn dealltwriaeth fanwl o ddatganoli a'r Gymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r sylwadau a wnaed:

- Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau o ganlyniad i'r sylwadau hyn.

Newidiadau drafftio eraill i'r Safonau Llunio Polisi:

Dim

Sylwadau pellach:

Credwn mai'r ffordd orau o ymdrin â materion gweithredu a'r sylwadau ynghylch rhesymoldeb a chymesuredd y Rheoliadau a godir gan reoleiddwyr gofal iechyd yw mewn trafodaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r Hysbysiad Cydymffurfio.

Mae paragraff 3.6 o'r ddogfen ymgynghori'n nodi bod safonau llunio polisi yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff asesu effaith eu penderfyniad polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Credwn fod rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud â materion sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas y Safonau hyn.

Rydym yn glir nad yw'r Safonau drafft yn ymwneud â safonau proffesiynol rheoleiddwyr gofal iechyd ac nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i rai sydd wedi cofrestru fod yn hyfedr yn y Gymraeg cyn y gellir eu cofrestru fel rhai sy'n addas i ymarfer, fel sy'n ofynnol mewn perthynas â'r Saesneg.

Mewn perthynas â chodau ymarfer, credwn y byddai cynnwys canllawiau a chodau ymarfer y rheoleiddwyr yn cael ei gwmpasu gan y safonau llunio polisi ac felly byddai eu heffaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei asesu o dan y categori hwn o safonau.

Ymdrinnir â sylwadau mewn perthynas â chynllunio a datblygu'r gweithlu yn yr ymateb i gwestiwn 4 gan mai'r ffordd orau o ymdrin â nhw yw drwy'r safonau gweithredol.

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau gweithredu a gynigir yn y rheoliadau?

3.60. Derbyniwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Rheoleiddwyr Gofal Iechyd

- 3.61. Roedd pob un o'r 8 corff gofal iechyd a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r bwriad i annog cyrff i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith staff. Mynegwyd safbwyntiau amrywiol mewn perthynas â rhesymoldeb a chymesuredd y safonau gweithredol drafft. Cytunodd un corff fod yr holl safonau drafft yn y categori hwn yn rhesymol ac yn gymesur. Mae cyrff eraill o'r farn y byddai Safonau 43 a 44 drafft yn rhesymol ac yn gymesur i raddau helaeth; cododd rhai o'r cyrff bryderon mewn perthynas â Safonau drafft 43(c), gan eu bod yn sefydliadau heb swyddfa yng Nghymru a heb unrhyw aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Cododd un corff ymholiadau ynghylch y ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael.
- 3.62. Mynegodd hanner y cyrff farn nad yw Safon 45 yn rhesymol ac yn gymesur gan eu bod yn gyrff bach, wedi'u lleoli y tu allan i Gymru i raddau helaeth. Mae'r cyrff hynny sydd â swyddfeydd yng Nghymru neu swyddi penodol sy'n ymdrin â Chymru yn ystyried bod Safonau 45 a 45A yn rhesymol mewn perthynas â'r swyddi hynny.

Cyrff yn y sector iechyd ond nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn

- 3.63. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn codi pryderon nad yw'r safonau gweithredu drafft yn ddigon cryf. Maent o'r farn bod angen dyletswydd ar gyrff i gynyddu eu gallu yn y Gymraeg i ddarparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn nodi ei farn hefyd y dylid gosod safon ar gyrff sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddangos eu bod wedi cymryd camau amrywiol i gynyddu capasiti'r Gymraeg yn eu corff.
- 3.64. Mae ymateb Comisiynydd y Gymraeg yn nodi y dylid cynnwys safonau gweithredu ychwanegol yn ei farn ef, sy'n ymwneud â'r materion canlynol:
- y defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol corff
 - cwynion a wneir gan aelodau staff corff
 - gweithdrefnau disgyblu staff corff
 - technoleg gwybodaeth a deunydd cymorth a ddarperir gan gorff, ac yn ymwneud â'r fewnwyd
 - arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
 - cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.
- 3.65. Mae'r Comisiynydd yn awgrymu y dylai'r Rheoliadau ddarparu opsiynau ar gyfer safonau sy'n ymwneud â'r materion hyn yn seiliedig ar p'un a oes gan gorff bresenoldeb yng Nghymru ai peidio.
- 3.66. At hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn bod angen cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi'r gweithlu ac ymestyn y cyfleoedd i staff gael gwersi Cymraeg, sy'n ymrwymiad a nodir mewn llawer o Gynlluniau Iaith Gymraeg presennol y cyrff. Mae'r Comisiynydd o'r farn hefyd ei bod yn hanfodol bod sefydliadau'n asesu sgiliau Cymraeg eu gweithwyr er mwyn gallu cynllunio eu gweithlu'n effeithiol. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod yr wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn i sefydliad gynnal

asesiad cydlynol o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer swydd neu swydd wag newydd (Safon drafft 45). Heb yr wybodaeth hon, nid yw'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn bosibl i gorff asesu ei allu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn unol â'r safonau drafft eraill a nodir yn y Rheoliadau hyn.

- 3.67. Yn ogystal, nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod y safonau drafft ar gyfer y broses recriwtio a phenodi'n ddigonol. Maent wedi'u cyfyngu i ddwy safon yn unig; un yn ymwneud ag asesu'r angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio, ac un yn ymwneud â chydabod hyn yn yr hysbyseb a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg pan fo sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu angen eu dysgu. Mae'r Comisiynydd wedi awgrymu y dylai gofynion ar gorff i gyhoeddi unrhyw ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r broses recriwtio yn Gymraeg, i alluogi unigolyn i wneud cais yn Gymraeg ac i gynnig a chynnal cyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg lle mae'r unigolyn sy'n cael ei gyfweld neu ei asesu yn dymuno gwneud hynny gael eu cynnwys yn y Rheoliadau.

Rhanddeiliaid yr iaith Gymraeg

- 3.68. Mae Cymdeithas yr Iaith o'r farn y dylid cryfhau'r safonau gweithredu drafft er mwyn caniatáu i'r cyrff allu darparu mwy o wasanaethau yn Gymraeg. Maent o'r farn y bydd angen i bob corff rheoleiddio roi sylw arbennig i'w cynlluniau ar gyfer sefydlu a datblygu gweithlu gyda staff digonol a all ddarparu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd, aelodau proffesiynol a myfyrwyr dan hyfforddiant.
- 3.69. Mae Cymdeithas yr Iaith o'r farn, yng ngoleuni canllawiau'r Comisiynydd ar recriwtio a gyhoeddwyd yn 2016 a'r arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cyrff i baratoi eu strategaeth sgiliau iaith eu hunain, y dylid ychwanegu'r dyletswyddau canlynol at y safonau gweithredu drafft:
- Asesu a chofnodi sgiliau Cymraeg holl staff y cyrff rheoleiddio gofal iechyd
 - Nodi'r cryfderau / bylchau yn y gweithlu sy'n galluogi / rhwystro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr
 - Asesu a chofnodi'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar gyfer pob swydd wag / swydd newydd, gan ddechrau gyda'r swyddi sy'n ymwneud â rhyngweithio â defnyddwyr
 - Cyflwyno trefniadau hysbysebu a recriwtio i alluogi staff i gael eu penodi gyda'r sgiliau Cymraeg priodol, yn unol â'r asesuadau swydd
 - Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i harwyddocâd ymhlith staff
 - Galluogi staff i gael mynediad at adnoddau dysgu / gwirio Cymraeg.

Cyrff yn y Sector Addysg

- 3.70. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o'r farn hefyd y dylai cyrff gefnogi hyfforddiant i staff ac anogaeth i siaradwyr Cymraeg fel y gellir darparu gwasanaethau Cymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r sylwadau a wnaed:

- Ychwanegwyd Safonau newydd sy'n gosod dyletswyddau ar gyrf i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'w gweithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â darparu hyfforddiant yn y Gymraeg i weithwyr. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu capasiti yn y Gymraeg fel rhan o'r gwaith cynllunio a datblygu, a fydd yn

galluogi'r cyrff i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd ac i rai sydd wedi cofrestru yng Nghymru.

Yn ein barn ni, ni fyddai cynnwys y Safonau hyn yn rhoi baich afresymol ar y cyrff, felly dim ond pe bai aelod o staff yn dymuno dysgu Cymraeg neu wella ei sgiliau y byddai'r safonau'n dod yn weithredol. Mae llawer o'r cyrff Rheoleiddio yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu gwersi Cymraeg i weithwyr yn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eisoes, sydd hefyd yn awgrymu ei fod yn ddyletswydd resymol. Gallai'r cyrff gael mynediad at hyfforddiant iaith Gymraeg yn rhad ac am ddim drwy gynllun *Cymraeg Gwaith* y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cymraeg Genedlaethol, sydd ar gael ar-lein.

Fel y nodwyd eisoes, nid oes gan lawer o'r cyrff staff wedi'u lleoli yng Nghymru na rolau sy'n ymdrin yn benodol â'r cyhoedd a rhai sydd wedi cofrestru yng Nghymru. Fodd bynnag, roeddent yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ac i rai sydd wedi cofrestru yng Nghymru. Er mwyn i Safonau newydd gael yr effaith fwyaf posibl ar gynyddu capasiti yn y Gymraeg yng ngweithlu'r cyrff, credwn y dylai hyfforddiant yn y Gymraeg fod ar gael i bob gweithiwr.

- Ychwanegwyd Safon newydd sy'n gosod dyletswydd ar gyrff i asesu sgiliau Cymraeg eu gweithwyr

Rydym yn cytuno â Chomisiynydd y Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith fod angen asesiad o'r sgiliau iaith Gymraeg er mwyn i gorff wybod ble mae sgiliau iaith Gymraeg wedi'u lleoli o fewn eu strwythurau ar hyn o bryd. Bydd yr wybodaeth hon yn eu galluogi i asesu lle mae angen sgiliau, ac os oes angen llenwi bylchau sgiliau wrth hysbysebu ar gyfer aelod newydd o staff. Bydd hefyd yn galluogi corff i gynllunio ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg.

Ychwanegwyd Safonau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff ganiatáu i bobl wneud cais am swydd yn Gymraeg, a defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad os yw'r swydd: (1) wedi'i lleoli yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf; (2) bod dyletswyddau'r swydd yn ymwneud yn benodol â Chymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf; neu (3) fod y swydd wedi'i chategoreiddio / ei hasesu neu eich bod wedi'i chategoreiddio fel un lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Sylwadau pellach:

Rydym wedi ystyried y pryderon a fynegwyd gan rai o'r cyrff gofal iechyd ynghylch cwmpas Safon ddrafft 45 (dyletswydd i asesu'r angen am sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swydd newydd neu swydd wag) yn ymestyn y tu hwnt i swyddi yng Nghymru a swyddi y cyfeirir atynt fel swyddi 'Cymru'. Nid ydym yn cytuno bod angen cyfyngu ar y Safonau drafft. O'n hymgysylltiad â'r cyrff, deallwn fod gweithwyr sydd â rolau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r meini prawf hyn yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a rhai sydd wedi cofrestru yng Nghymru, felly mae angen asesu'r swyddi hyn fel y gall corff gynllunio ei weithlu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Nid ydym yn cytuno â sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ynghylch ychwanegu Safonau sy'n ymwneud â'r materion a nodir ym mharagraff 3.18 ac y dylai fod opsiynau amrywiol ar gyfer pob un o'r materion a restrir, yn dibynnu ar a oes gan y corff swyddfa yng Nghymru. Rydym o'r farn o hyd y dylai safonau gweithredu'r cyrff hyn ganolbwyntio ar ddod o hyd i ffyrdd o gynyddu eu gallu yn y Gymraeg; dyma nod y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r Safonau yn y categori hwn.

Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cadw cofnodion a'r safonau sy'n ymdrin â materion ategol a gynigir yn y rheoliadau?

- 3.71. Derbyniwyd 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- 3.72. Gwnaeth pob un o'r 8 rheoleiddiwr gofal iechyd a ymatebodd i'r ymgynghoriad sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol ymhlith y categori hwn o ymatebwyr i'r safonau cadw cofnodion yn benodol. Roedd y rheoleiddwyr gofal iechyd a wnaeth sylwadau ar y categori hwn o safonau o'r farn eu bod yn rhesymol ac yn gymesur.
- 3.73. Mae rhai o'r cyrff wedi galw am well dealltwriaeth o a fyddai angen iddynt ddatblygu gweithdrefn gwyno ar wahân i ymdrin â Safon y Gymraeg (Safon 49). Yn ogystal, gofynnodd rhai o'r cyrff am eglurhad o'r senarios a'r prosesau mewn perthynas â cheisiadau am ragor o wybodaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg, mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau.

Cyrff yn y sector iechyd ond nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn

- 3.74. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn croesawu'r safonau cadw cofnodion a'r Safonau atodol. Yn benodol, maent yn nodi eu bod yn croesawu'r ddyletswydd ar gyrrff rheoleiddio i roi gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg am gydymffurfio â'r Safonau.
- 3.75. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi awgrymu y dylid ychwanegu'r Safonau ychwanegol canlynol at y Safonau cadw cofnodion:
- Yn unol â'i alwadau am safon weithredu i'w gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr gofal iechyd asesu sgiliau Cymraeg eu gweithwyr, mae Comisiynydd y Gymraeg yn galw am safon cadw cofnodion gyfatebol i osod dyletswydd ar gyrrff i gadw cofnod o nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod angen y safon hon er mwyn sicrhau llwyddiant gwaith sefydliad i gynllunio ei weithlu'n effeithiol – a gwybod pa sgiliau sydd eu hangen yn y gweithle wrth recriwtio mwy o staff.
 - Safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff gadw manylion neu gopiâu o'r cwynion y maent yn eu derbyn. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn bod hyn yn ofynnol, yn ogystal â Safon ddrafft 46, sy'n gosod dyletswydd ar gorff i gadw cofnod o nifer y cwynion y mae wedi'u derbyn mewn perthynas â'i gydymffurfiaeth â'r safonau.
- 3.76. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn tynnu sylw hefyd at y ffaith nad yw'r term 'swydd' wedi'i ddehongli yng nghyd-destun y safonau cadw cofnodion, er bod dehongliad ar gael at ddibenion safonau drafft 45 a 45A yn unig. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod angen dehongliad mwy cyffredinol, oni bai bod rheswm penodol dros ei ddehongli yng nghyd-destun Safonau 45 a 45A drafft yn unig. Codwyd y pwynt hwn gan yr aelod o'r cyhoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad hefyd.
- 3.77. Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw hefyd am Safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cofrestrï proffesiynol a gynhelir gan y rheoleiddwyr gofal iechyd gofnodi sgiliau Cymraeg y rhai sydd wedi cofrestru. Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu bod angen y Safon hon i hwyluso trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu iechyd yng Nghymru ac i

sicrhau bod y gweithlu'n gallu gweithredu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn unol â gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r sylwadau a wnaed:

Safonau Cadw Cofnodion

- Mae safon newydd wedi'i hychwanegu sy'n gosod dyletswydd ar gyrff i gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau.
- Rydym yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd gan y Comisiynydd ac rydym o'r farn y byddai'n briodol gosod dyletswydd ar gyrff i gadw manylion y cwynion a dderbynnir. Byddai hyn yn caniatáu i gymariaethau gael eu gwneud rhwng y cwynion, i nodi unrhyw faterion cyffredin y gallai fod angen mynd i'r afael â nhw ac ystyried natur a difrifoldeb y cwynion ac a oes achos i bryderu.
- Ychwanegwyd Safon newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff gadw cofnod o sgiliau Cymraeg eu gweithwyr.

Newidiadau drafftio eraill i'r Safonau Cadw Cofnodion:

- Mae amserlen o dair blynedd mewn perthynas â chadw copïau o gwynion wedi'i hychwanegu at y Safonau Cadw Cofnodion.

Sylwadau pellach:

Mae dehongli'r Safonau a monitro cydymffurfiaeth yn faterion i Gomisiynydd y Gymraeg eu hystyried unwaith y bydd y Rheoliadau wedi'u gwneud, ond byddem yn disgwyl i'r materion hyn gael eu nodi mewn Codau Ymarfer a nodiadau cyfarwyddyd.

O ran darparu dehongliad mwy cyffredinol o ystyr 'swydd', nid ydym o'r farn bod hyn yn ofynnol gan fod y Safonau eraill wedi'u cyfyngu gan yr ystyr a nodir yn Safon ddrafft 45 a 45 A.

Ymdrinnir ag ymateb y Llywodraeth mewn perthynas ag awgrym Cymdeithas yr Iaith ar gyfer y cofrestri proffesiynol yn yr ymateb i gwestiwn 1.

Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

3.78. Ymatebodd 11 o gyrff i'r cwestiwn hwn.

Rheoleiddwyr Gofal Iechyd

3.79. Gwnaeth pob un o'r 8 rheoleiddiwr gofal iechyd a gyflwynodd ymateb i'r ymgynghoriad sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Nododd 7 o'r cyrff eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn

llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd rhai o'r cyrff yn cydnabod y gallai fod effeithiau cadarnhaol yn gysylltiedig â chael safonau ar y cyd sy'n berthnasol i bob rheoleiddiwr proffesiynol, megis gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Dywedodd cyrff eraill nad oedd ganddynt yr arbenigedd i amcangyfrif yn ystrolon effaith y safonau hyn ar y Gymraeg a/neu allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Nododd tri o'r cyrff y byddai'n anodd amcangyfrif yr effaith y gallai safonau ei chael ar y Gymraeg ond bod y galw am wasanaethau wedi bod yn isel er bod Cynlluniau Iaith Gymraeg ar waith. Nododd un corff ei bod yn anodd nodi pa effaith y bydd y rheoliadau hyn yn ei chael ar gyfleoedd i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg gan nad oes ganddynt weithwyr yng Nghymru ar hyn o bryd.

Cyrff yn y sector iechyd ond nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn

3.80. Ymatebodd tri chorff o'r sector hwn.

3.81. Roedd dau o'r cyrff o'r farn y byddai'r Safonau'n cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun rheoleiddio gofal iechyd.

Rhanddeiliaid yr iaith Gymraeg

3.82. Mae Cymdeithas yr Iaith yn credu y dylai gosod safonau iaith Gymraeg ar gyrff rheoleiddio gofal iechyd fod yn fodd o wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i rai sydd wedi cofrestru yng Nghymru. At hynny, o ystyried rôl eang y cyrff rheoleiddio, credant y gall safonau o'r fath gyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd drwy wella ansawdd ein gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru a gwella profiadau defnyddwyr y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, mae Cymdeithas yr Iaith yn nodi bod y ddogfen ymgynghori'n cydnabod bod y Safonau'n gyfyngedig ac yn ymdrin yn bennaf â rôl y cyrff rheoleiddio o ran:

- Ymdrin â chwynion gan aelodau'r cyhoedd am waith gweithwyr iechyd proffesiynol; ac
- Ymdrin â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol os ydynt yn destun gwrandawriad addasrwydd i ymarfer.

3.83. Cred Cymdeithas yr Iaith fod rôl y cyrff rheoleiddio yn y cyswllt canlynol wedi'i hanwybyddu:

- Gosod safonau addysg a hyfforddiant
- Penderfynu ar ymddygiad a pherfformiad aelodau proffesiynol
- Sicrhau addasrwydd i ymarfer ymhlith aelodau proffesiynol
- Cynnal cofrestri proffesiynol.

3.84. Maent o'r farn bod y Rheoliadau hyn:

- Yn methu ag ystyried swyddogaethau'r cyrff rheoleiddio yn eu cyfanrwydd;
- Yn methu ag ystyried holl ddefnyddwyr gwasanaethau'r cyrff hynny;
- Yn methu â sicrhau trefniadau digonol ar gyfer hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gyda defnyddwyr, gan golli cyfle i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd ac aelodau proffesiynol yng Nghymru;
- Yn methu â dylanwadu ar safonau addysg y cyrff rheoleiddio i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith wrth hyfforddi ymarferwyr yng Nghymru
- Yn methu â dylanwadu ar godau ymarfer cyrff rheoleiddio i sicrhau y bydd ymarferwyr yng Nghymru yn darparu arfer ieithyddol addas, yn unol â gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru

- Yn methu â chyfrannu at gynllunio'r gweithlu yng Nghymru er mwyn diogelu'r cyhoedd drwy wella ansawdd a phrofiadau defnyddwyr ein gwasanaethau gofal iechyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Wrth baratoi'r rheoliadau hyn, rydym wedi ystyried yn ofalus pa wasanaethau mae'r cyrff yn eu darparu, natur y cyrff a lleoliad eu swyddfeydd.

O ran y pwynt a wnaed gan rai o'r rheoleiddwyr, mae Llywodraeth Cymru yn hapus i drafod y rheoliadau gyda'r sector ond maent am nodi mai Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am ddehongli a gweithredu'r Safonau. Bydd cyfle i'r cyrff drafod gyda'r Comisiynydd yn unigol fel rhan o'r broses o gytuno ar hysbysiadau cydymffurfio unigol. Bydd y broses hon, ac ymgynghoriad pellach, yn cael eu cynnal ar ôl i'r Rheoliadau hyn gael eu cytuno yn y Senedd.

Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.85. Ymatebodd 6 o gyrff i'r cwestiwn hwn.

Rheoleiddwyr Gofal Iechyd

3.86. Cafwyd 4 ymateb gan y rheoleiddwyr gofal iechyd, ac roedd eu hymatebion yn debyg iawn i'r ymatebion a roddwyd i gwestiwn 6. Nododd tri o'r cyrff eu hymrwymadau i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Nodwyd hefyd nad oeddent yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o sut y gellid addasu'r safonau arfaethedig i gael mwy o effeithiau cadarnhaol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

3.87. Dywedodd un corff y byddent yn croesawu trafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru ar y ffordd orau o gydbwyso ein cylch gwaith ar gyfer y DU gyfan a darparu cyfleoedd cadarnhaol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ar yr un pryd. Roeddent yn teimlo bod gweithgareddau penodol megis datblygu mwy o fodiwlau dysgu a gwella ymwybyddiaeth o ba wasanaethau iaith rydym yn eu cynnig yn gynigion cwbl resymol. Fodd bynnag, gwnaethant nodi bod rhai o'u gweithgareddau craidd, megis ein gwaith polisi a datblygu safonau, wedi cael eu dylanwadu'n drwm gan eu deddfwriaeth sefydlu, felly maent am sicrhau nad ydym yn camu y tu allan i'w swyddogaeth statudol.

Cyrff yn y sector Iechyd ond nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn

3.88. Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol mai ychydig iawn sydd yn y safonau ynghylch cynyddu cyfran gweithlu mewnol y cyrff rheoleiddio sy'n siarad Cymraeg a nododd fod y Safonau'n nodi mesurau i gofnodi disgrifiadau swydd sy'n hysbysebu am siaradwyr Cymraeg ond nid yw'n mynd y tu hwnt i hyn. Maent o'r farn ei bod yn bwysig bod y Cyrff Rheoleiddio'n croesawu'r dull hwn o gadw cofnodion fel ffordd o bennu'r galw am siaradwyr Cymraeg yn y cyrff. Bydd hyn yn gwella'r cyfle i siaradwyr Cymraeg gael cyflogaeth yn arw ac yn helpu'r cyhoedd yn eu gallu i gyfathrebu â siaradwr Cymraeg.

Rhanddeiliaid yr iaith Gymraeg

3.89. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi darparu'r argymhellion canlynol er mwyn cynyddu'r effeithiau a'r cyfleoedd cadarnhaol i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:

- Dylai'r safonau hwyluso profiadau holl ddefnyddwyr y gwasanaethau hynny yng Nghymru, gan gynnwys aelodau proffesiynol, hyfforddeion dan hyfforddiant ar gyfer y proffesiynau hynny ac aelodau'r cyhoedd.
- Dylai safonau'r Gymraeg fynd i'r afael â holl swyddogaethau cyrff rheoleiddio gofal iechyd.
- Dylai aelodau proffesiynol, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd ddisgwyl yr un gwasanaethau Gymraeg gan y cyrff rheoleiddio lle bynnag y lleolir eu swyddfeydd yn y Deyrnas Unedig.
- Wrth ddarparu gwasanaethau cyfrwng Gymraeg i'w prif randdeiliaid, dylai'r cyrff rheoleiddio fabwysiadu egwyddor y 'cynnig rhagweithiol', yn unol â chyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru, ac adlewyrchu safonau'r Gymraeg ar gyfer cyrff cyhoeddus tebyg.
- Dylai'r cofrestri proffesiynol a gynhelir gan y cyrff rheoleiddio gofnodi sgiliau iaith Gymraeg y rhai sydd wedi cofrestru er mwyn hwyluso trefniadau ar gyfer cynllunio gweithlu iechyd yng Nghymru sy'n gymwys i weithredu 'cynnig rhagweithiol' o wasanaethau cyfrwng Gymraeg, yn unol â gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru.
- Dylai safonau'r Gymraeg ddylanwadu ar ddatblygiad safonau addysg a hyfforddiant cyrff rheoleiddio er mwyn paratoi ymarferwyr yng Nghymru sy'n gymwys i ddiwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol ei phobl, yn unol â gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru
- Dylai'r safonau ddylanwadu ar ddatblygiad codau ymarfer cyrff rheoleiddio er mwyn cynnal ymarfer yng Nghymru sy'n diwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol ei phobl, yn unol â gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru
- Dylai'r safonau ddylanwadu ar y drefn addasrwydd i ymarfer ar gyfer aelodau proffesiynol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yng Nghymru yn gymwys i ddiwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol ei phobl, yn unol â gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Fel y nodir uchod, wrth baratoi'r rheoliadau hyn rydym wedi ystyried yn ofalus pa wasanaethau mae'r cyrff yn eu darparu, natur y cyrff a lleoliad eu swyddfeydd.

Rydym wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Gymdeithas yr Iaith o dan y dosbarthiadau safonau perthnasol.

Cwestiwn 8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

3.90. Dywedodd un o'r cyrff rheoleiddio ei bod yn anodd iddynt gyfrifo effaith ariannol y safonau yn llawn. Nodwyd y byddent am osgoi mynd i gostau diangen a fydd yn anochel yn golygu gorfod dargyfeirio adnoddau oddi wrth weithgareddau eraill sydd â'r nod o ddiogelu cleifion a hybu hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau a ddarperir gan y sector yng Nghymru.

- 3.91. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gwneud sylwadau ynghylch hyd a lled y rheoliadau. Mae'r ymateb yn nodi bod y rheoliadau'n cynnwys llai o ofynion nag mewn rheoliadau eraill a bod ymgais i leihau nifer y safonau.
- 3.92. Roedd ymateb y Comisiynydd yn tynnu sylw hefyd at anfodlonrwydd â sefyllfa lle mae un set o reoliadau safonau'n golygu y bydd grŵp o sefydliadau cyhoeddus yn destun llawer llai o ofynion na sectorau eraill sydd eisoes yn gweithredu safonau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Wrth baratoi'r Rheoliadau hyn, rydym wedi ystyried yn ofalus pa wasanaethau mae'r cyrff yn eu darparu, natur y cyrff a lleoliad eu swyddfeydd. Nid ydym yn credu bod y ffaith bod safon wedi ymddangos mewn rheoliadau blaenorol a grëwyd ar gyfer cyrff/sectorau eraill yn ddigon o reswm dros gynnwys safon yn y Rheoliadau hyn os nad yw'r safon honno'n gymwys, neu os nad yw'n rhesymol i gorff gydymffurfio â hi.

Cynhaliwyd adolygiad llawn o Gynlluniau Iaith Gymraeg cyn paratoi'r Rheoliadau hyn, ac mae ymrwymïadau'r Cynllun wedi'u paru â dyletswyddau drwy safonau lle credir eu bod yn rhesymol, yn gymesur ac yn orfodadwy. Fodd bynnag, mae Safonau'n wahanol o ran eu natur i Gynlluniau Iaith Gymraeg ac mae angen i ni sicrhau bod yr holl safonau'n glir, yn benodol ac yn orfodadwy.

Rhaid cofio na ellir cymharu'r cyrff hyn â chyrff sydd wedi'u cynnwys mewn setiau blaenorol o Reoliadau. Dyma'r set gyntaf o safonau sydd wedi'u paratoi lle mae'r holl gyrff sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau yn gyrff y DU.

ATODIAD A – RHESTR O'R YMATEBWYR

Rheoleiddwyr Gofal Iechyd

- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Cyrff yn y Sector Iechyd (nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn)

- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
- Comisiynydd y Gymraeg
- Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Rhanddeiliad y Gymraeg

- Cymdeithas yr Iaith

Cyrff yn y Sector Addysg

- Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Aelod o'r cyhoedd

- Dienw